coram pacey
cymru

# Maniffesto i warchodwyr plant

## Etholiad Senedd 2026





## Cyflwyniad

Mae'r sector gwarchod plant yng Nghymru mewn cyflwr ansicr o fregusrwydd. Mae llawer o warchodwyr plant, gan gynnwys y rhai mewn ardaloedd difreintiedig, yn wynebu cau oherwydd costau gweithredu cynyddol, galw cynyddol o ran gofynion rheoleiddiol a mynediad anghyson i ddarparu darpariaeth a ariennir. Mae rhwystrau i ddod yn warchodwr plant, gan gynnwys costau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant a chofrestru wedi atal neu ddigalonni rhai unigolion rhag dod yn warchodwyr plant ac felly wedi cyfrannu at ostyngiad cynyddol y nifer o gofrestriadau gwarchodwyr plant newydd sy'n cael eu cofnodi [1].

Mae ffigurau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn dangos bod nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig wedi gostwng o un flwyddyn i'r llall rhwng mis Mawrth 2018 a mis Medi 2025, gyda thua 807 yn llai o leoliadau ym mis Medi 2025 o'i gymharu â mis Mawrth 2018 (gostyngiad o 37%)[2]. Mae colli gwarchodwyr plant a'r lleoedd gofal plant y maent yn eu cynnig yn gwrthgyferbynnu â rhannau eraill o'r sector ac ehangu gofal plant a ariennir a mentrau polisi blynyddoedd cynnar eraill. Mae'r gostyngiad yn niferoedd y gwarchodwyr plant cofrestredig yn debygol o gael effaith sylweddol ar argaeledd a hygyrchedd gofal plant, ac yn bygwth y cyfrifoldeb statudol sydd ar Awdurdodau Lleol i sicrhau darpariaeth gofal plant i blant a theuluoedd.

Cyhoeddwyd Adolygiad Annibynnol Gwarchod Plant ym mis Mehefin 2023. Sefydlwyd Panel Trosolwg Grŵp Argymhellion yr Adolygiad Gwarchod Plant a Gweithgorau gan Lywodraeth, Cymru gan ddwyn ynghyd partneriaid a rhanddeiliaid allweddol, i ystyried canfyddiadau'r adolygiad ac archwilio camau gweithredu ac amserlenni ar gyfer pob un o'r argymhellion. Mae gwaith yn parhau, ond yn araf yn y meysydd sy'n hanfodol ar gyfer newid cadarnhaol. Yn y ddwy flynedd ers cyhoeddi'r adroddiad, mae'r nifer o warchodwyr plant yng Nghymru wedi parhau i ostwng ar gyfradd sylweddol. Mae nifer y gwarchodwyr plant yn cael ei effeithio gan nifer cofrestriadau gwarchodwyr plant newydd a chansladau gwarchodwyr plant sy'n gadael y sector.

Mae Coram PACEY Cymru yn parhau i fod yn bryderus am dri phrif faes sy'n ffurfio ffocws ein maniffesto – cymorth dechrau busnes i'r rhai sy'n bwriadu dod yn warchodwyr plant, cyfleoedd i warchodwyr plant ddarparu darpariaeth Dechrau'n Deg ac Addysg Feithrin wedi'i hariannu a newidiadau i gymarebau gwarchodwyr plant. Credwn, heb gamau pellach yn y meysydd hyn, bydd nifer y gofalwyr plant yn parhau i ostwng.

Mae canfyddiadau'r Adolygiad Annibynnol yn nodi bod angerdd dros warchod plant yn ogystal â'r cyfle i reoli eu busnes eu hun yn ffactorau allweddol sydd wedi annog llawer o unigolion yng Nghymru i ddewis gwarchod plant fel dewis gyrfa hirdymor, ac mae angen i ni wneud rhagor i gefnogi gwarchodwyr plant o ystyried y rôl allweddol sydd ganddynt i'w chwarae a dangos faint maen nhw'n cael eu gwerthfawrogi a'u parchu.

Mae'r Maniffesto hwn yn amlinellu cyfres o argymhellion polisi i gefnogi'r sector gwarchod plant yng Nghymru.

## Claire Protheroe

coram pacey cymru



[1] Independent Review of Childminding
[2] Microsoft Power BI

# Cipolwg ar yr argymhellion

1. Ariannu rhaglen gyffredinol, genedlaethol i gefnogi darpar warchodwyr plant drwy'r broses cyn-gofrestru, gan sicrhau hygyrchedd a chysondeb..

2. Galluogi darpariaeth gwarchodwyr plant o holl raglenni wedi'u hariannu gofal plant a blynyddoedd cynnar, gan gynnwys Dechrau'n Deg ac Addysg Feithrin.

3. Symud ymlaen â chynigion ar gyfer newidiadau i gymarebau gwarchodwyr plant i gefnogi parhad gofal i blant, dewis rhieni o ddarpariaeth a chynaliadwyedd gwasanaethau.

4. Adolygu a gweithredu systemau ariannu sy'n deg, yn gynaliadwy, ac yn ymatebol i anghenion pob plentyn, teulu, a darparwr gofal plant.

5. Sefydlu fframwaith cenedlaethol, cydlynol i symleiddio ac egluro gofynion cynllunio, gwastraff masnachol, ac iechyd amgylcheddol lleol i warchodwyr plant – gan ddileu anghysondebau a lleihau rhwystrau rheoliadol.



1

**Ariannu rhaglen gyffredinol, genedlaethol i gefnogi darpar warchodwyr plant drwy'r broses cyn-gofrestru, gan sicrhau hygyrchedd a chysondeb.**

**Cefndir:** Mae Coram PACEY Cymru yn parhau i alw ar Lywodraeth Cymru i ariannu rhaglen cyn-gofrestru gyffredinol, genedlaethol, gynhwysfawr i fynd â'r darpar warchodwr plant o'r pwynt ymholi cyntaf i gofrestru, gan sicrhau hygyrchedd a chysondeb. Mae angen ymrwymiad a buddsoddiad yn y maes hwn i sicrhau effaith sylweddol.



## 2 Galluogi darpariaeth gwarchodwyr plant o holl raglenni wedi'u hariannu gofal plant a blynyddoedd cynnar, gan gynnwys Dechrau'n Deg ac Addysg Feithrin

**Cefndir:** Mae Coram PACEY Cymru yn ymwybodol o'r effaith sylweddol mae darparu ac ehangu Dechrau'n Deg yn ei chael ar warchodwyr plant. Mae rhwystrau ar waith i warchodwyr plant allu darparu darpariaeth addysg Dechrau'n Deg a Blynyddoedd Cynnar y mae angen eu chwalu neu eu dileu. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod gan rhieni/gofalwyr hygyrchedd a dewis o ran gofal plant o safon ledled Cymru.

Credwn yn gryf y dylid defnyddio'r dull o fewn y Cynnig Gofal Plant i Gymru ac y dylai unrhyw leoliadau sydd wedi cofrestru ag AGC gael y cyfle i gael eu hariannu ar gyfer Dechrau'n Deg neu Addysg Blynyddoedd Cynnar heb rwystrau ychwanegol o ran hyfforddiant, cymwysterau a chaffael yn cael eu rhoi ar waith.



## 3 Gweithredu newidiadau i gymarebau gwarchodwyr plant

**Cefndir:** Mae'r ymgynghoriad presennol ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoledig yng Nghymru yn cynnig newidiadau yn y maes hwn y mae Coram PACEY Cymru yn eu cefnogi. Rhaid i ni weithredu unrhyw newidiadau y cytunir arnynt cyn gynted â phosib i gefnogi parhad gofal i blant, cadw grwpiau o frodyr a chwiorydd gyda'i gilydd, sicrhau dewis rhieni o ran darpariaeth, a chefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau.

4

**Adolygu a gweithredu systemau ariannu sy'n deg, yn gynaliadwy, ac yn ymatebol i anghenion pob plentyn, teulu, a darparwr gofal plant.**

**Cefndir:** Unig fasnachwyr yw gwarchodwyr plant yn bennaf, gyda meintiau elw bach iawn ar drosiant, ac felly maent yn arbennig o agored i niwed oherwydd cyfraddau cyllido annigonol. Maent hefyd yn arbennig o agored i niwed i effaith ymarfer taliadau gwael. Mae'r sefyllfa wedi gwaethygu oherwydd yr argyfwng costau byw: chwyddiant cynyddol, costau ynni a chostau hanfodion fel bwyd a theithio.

Cafodd y cynnydd ym mis Ebrill 2025 yn y gyfradd a delir am gyflawni'r Cynnig Gofal Plant i Gymru groeso gan Coram PACEY Cymru ac aelodau. Mae angen adolygu'r holl gyfraddau a delir ar draws yr holl raglenni a ariennir yn flynyddol ac alinio'r rhain yn agosach.

Pe bai'r holl daliadau a ariennir (Cynnig Gofal Plant, Dechrau'n Deg ac Addysg Feithrin) yn cael eu talu ymlaen llaw bob mis, gan ddefnyddio'r gwasanaeth digidol cenedlaethol ar gyfer y Cynnig Gofal Plant fel mecanwaith, byddai hyn yn caniatáu i warchodwyr plant reoli eu llif arian ac yn eu hamddiffyn rhag amgylchiadau newidiol ar gyfer plant yn eu gofal sy'n effeithio ar eu gwasanaeth yn ariannol.

## 5 Sefydlu fframwaith cenedlaethol, cydlynol i symleiddio ac egluro gofynion cynllunio, gwastraff masnachol, ac iechyd amgylcheddol lleol i warchodwyr plant

**Cefndir:** O adborth gan warchodwyr plant, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach, gwyddom fod gofynion cynllunio, gwastraff masnachol, ac iechyd amgylcheddol lleol yn gallu cael effaith negyddol ar warchodwyr plant a dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch cofrestru, parhau i fod yn gofrestredig, neu wneud penderfyniadau am ehangu.

Mae'r amrywiadau mewn dulliau presennol yn lleol yn ddryslyd ac yn anghyson. Mae rhai camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â phroblemau ond mae angen camau gweithredu pellach i gael yr effaith ofynnol. Rydym yn galw am fframwaith cenedlaethol cydlynol o ganllawiau ar draws yr holl feysydd trawsbynciol hyn i ddarparu dull clir a chyson ar gyfer gwarchodwyr plant yng Nghymru mewn un adnodd.



## Ynglŷn â Coram PACEY

Wedi'i ffurfio ym 1977, rydym yn gymdeithas broffesiynol sy'n ymroi i gefnogi gweithwyr gofal plant proffesiynol yn y cartref, gan gynnwys gwarchodwyr plant a nanis, i gynnig gwasanaethau, gwybodaeth a chyngor o ansawdd uchel i blant, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Rydym am i bob plentyn brofi gofal plant ac addysg gynnar o ansawdd uchel, gan eu helpu i gael dyfodol disglair.

Ledled Cymru a Lloegr, rydym ni'n darparu hyfforddiant, cyngor arbenigol, help a chymorth rhwng cymheiriaid ynghyd â chymorth ymarferol a diduedd a gwybodaeth i deuluoedd a gofalwyr a'r bobl sy'n eu cynghori.


02920 351 207

cymru@corampacey.org.uk

www.corampacey.org.uk



**Coram: Rhif elusen gofrestredig 312278**

**Cyhoeddwyd Hydref 2025**


coram pacey cymru